

YR  
**ESBONIWR.**

DAN OLYGIAD  
Y PARCH. L. EDWARDS, A. C.  
BALA.

L L Y F R I.

CAERLLEFON:  
ARGRAFFWYD GAN T. THOMAS, A CHYHOEDDWDYD  
GAN J. PHILLIPS, ST. ANNÉ STREET;  
A R. HUGHES, WREXHAM.

MDCCLXIV.

*Dyma'r wynebdden newydd roddodd Richard Hughes ar gyfrolau rhwymedig o Yr Esboniwr, misolyn i'r Ysgol Sul, yn 1844.*

Hughes. Rhwymodd yntau y rhannau'n gyfrolau gan gynnwys nodalen deul newydd a cham-arweiniol sy'n parhau i beri dryswch i lyfryddwyr. Fel y dangosodd Dr Huw Walters yn *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymraeg* gwnaeth Hughes yr un peth rai blynyddoedd yn ddiweddarach pan brynodd y copiau gweddill o'r ail gyfrol o *Cylchgrawn y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Fuddiol*.

Teitl arall poblogaidd dros ben sy'n nodweddiadol o gynnyrch y wasg oedd *Athroniaeth Trefn Iechyduriaeth*, cyfieithiad di-enw o lyfr gan yr Americanwr James Barr Walker a gyhoeddwyd gan Hughes yn 1848. Cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig yn 1857 ac fe adargraffwyd hwnnw'n gyson; rhwng 1873 a 1905 cafwyd chwe argraffiad yn cynnwys saith mil o gopiau.

Er bod Richard Hughes wedi gosod sylfaen gadarn i'w fusnes erbyn y 1840au byddai'n anodd pryd hynny rhagweld mai hon fyddai un o'r swyddfeydd pwysicaf yng Nghymru o'r 1860au ymlaen. Roedd yn ffodus fod ganddo fab galluog a menurus i sicrhau yr olyniaeth deuluol hollbwysig. Ganwyd tri o blant cyn marwolaeth ei wraig, Ann, ym mis Hydref 1826 (nid

1827 fel y dywed Bassett). Bu farw ei unig ferch, Jemima, yn 1826 yn flwydd oed. Bu'r mab hynaf, Isaac, a anwyd yn 1821, yn gweithio yn siop ei dad; pan ymunodd â'r mudiad dirwestol yn Ebrill 1836 dywedodd mai 'bookseller' oedd ei alwedigaeth. Nid oes dim tystiolaeth sy'n awgrymu ei fod wedi derbyn hyfforddiant yn y grefft o argraffu; hwyrach i Richard Hughes fwriadu rhannu'r busnes rhwng ei ddau fab, gan osod yr adran honno o'r busnes yng ngofal ei fab iau, Charles. Beth bynnag oedd y cynllun bu farw Isaac Hughes tua diwedd Mawrth 1849.

Ganed Charles Hughes ar ddechrau Mawrth 1823. Derbyniodd ei addysg elfennol yn ysgol ei ewythr John Hughes ac yna mynychodd ysgol ramadeg Bridgnorth. Hwyrach iddo furw ei brentisiaeth yn swyddfa ei dad cyn treulio'r blynyddoedd 1844-48 yn Llundain gyda'r cwmni blaenllaw o gyhoeddwy'r a chyfanwerthwyr llyfrau, Simpkin, Marshall. Gwnaeth ei dad ef yn bartner yn y busnes ar ddiwedd Rhagfyr 1848; o ddechrau Ionawr 1849 tan farwolaeth Richard Hughes ganol Ionawr 1871 'R. Hughes

a'i Fab' oedd enw swyddogol y cwmni.

Yn ystod y 1850au roedd y bartneriaeth yn parhau i ganol-bwyntio ar gynhyrchu llyfrau crefyddol, megis tair cyfrol enfawr *Methodistiaeth Cymru*. John Hughes, a gyhoeddwyd mewn rhannau rhwng 1851 a 1856. Ond erbyn hyn roedd llawer iawn mwy o'r llyfrau a ddaeth o'r wasg yn cael eu cyhoeddi gan Hughes. Oherwydd y cynnydd yn y busnes bu'n rhaid symud y wasg a chartref y teulu o Heol yr Eglwys i 56 Heol Estyn tua chanol 1853; er bod dipyn mwy o le yno i'r siop lyfrau a'r swyddfa argraffu, roedd prinder lle yn parhau'n broblem ac wrth i'r busnes gynyddu bu'n rhaid danfon llawer o waith argraffu a rhwymo i gwmnïau blaenllaw y tu allan i Gymru, megis Clowes yn Llundain a Ballantyne yng Nghaeredin. Cam pwysig arall oedd dechrau mecaneiddio'r gwaith o gynhyrchu llyfrau. Yn ôl tystiolaeth Rhuddensfab roedd y peiriant argraffu cyntaf ar waith erbyn 1857, ac erbyn 1858 cyflogai'r swyddfa ddwsin o ddynion yn ogystal â saith bachgen a naw merch.

Bu cynnydd sylweddol dros ben o ddechrau'r 1860au pan fentrodd y wasg am y tro cyntaf i ddau faes proffidiol dros ben a

arloeswyd yn bennaf gan Isaac Clarke, Rhuthun, sef cyhoeddi cyfrolau swllt o farddoniaeth boblogaidd gan feirdd cyfoes a chyhoeddi cerddoriaeth boblogaidd. Wrth i'r wasg ymateb i'r galw am y mathau newydd hyn o gyhoeddiadau (ac yn wir ei feithrin) bu cynnydd pellach yn y nifer a gyflogwyd gan y swyddfa. Llwyddwyd i gael ychydig rhagor o le ar gyfer y busnes yng ngwanwyn 1865 pan symudodd y teulu i Frynhyfryd, un o'r cyntaf o'r tai crand a adeiladwyd ar ffordd Grosvenor gan ddsbarth canol llwyddianus Wrecsam.

O'r 1850au cynnar ymlaen Charles Hughes oedd â gofal beunyddiol am y swyddfa, ond mae'n amlwg bod ei dad yn parhau i ddyllanwadu ar bolisiau'r wasg ac yn cytuno â'r newid mawr a fu yn ansawdd ei chynnyrch. Dioddefodd Richard Hughes gryn dipyn o afiechyd yn ystod y 1860au ac o 1868 ymlaen gwanychodd yn raddol. Serch hynny cawn Charles Hughes yn rhoi cryn bwyslais mewn llythyr at Ceiriog ar *'father's wishes'* mor ddiweddar â Chwefror 1870. Pan fu farw Richard Hughes ymhen llai na blwyddyn, roedd ei swyddfa yn cyflogi deugain o weithwyr ac fe'i hystyrid yn un o'r gweisg mwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Pris Pedair Ceiniog.

Y  
**TLWS ARIAN:**

GAN  
**JOHN PHILLIPS,**

(TEGIDON.)

*Audier "Y Ddeilen ar y Traeth," "Y Cenedler,"  
Cyfieithyd: yr "Eglwys o Ddifyr."*

ARGRAFFIAD NEWYDD GYDA LLUAWS O  
YCHWANEGIADAU.

WREXHAM:  
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON.

*Clawr blaen un o argraffiadau Richard Hughes o lyfr i blant o waith Tegidon. Cyhoeddwyd tua phedwar argraffiad o'r gwaith.*